

SOCG007

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Datganiad Tir Cyffredin

STR3B Warren Hall

Chwefror 2021

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	1
2. Cyd-destun y Safle	1
3. Statws Cynllunio Cyfredol	1
4. Cefndir ac Astudiaethau Technegol	2
5. Hyfywedd Economaidd	4
6. Paramedrau Datblygu	6
7. Llwybr y Datblygiad	7
8. Isadeiledd	8
9. Materion Eraill	10
10. Casgliad	13

Atodiad 1 Gwerthusiad Creu Lleoedd

Atodiad 2 Cyfyngiadau Awyrenegol

1. Rhagarweiniad

1.1 Paratowyd y Datganiad Tir Cyffredin hwn gan Gyngor Sir y Fflint ar y cyd ag Adran Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru (cynrychiolir gan WYG, a elwir bellach yn Techra Tech) ac Is-adran Tir Llywodraeth Cymru yn ogystal â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Fe'i paratowyd i gynorthwyo a hysbysu'r Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint o ran dyraniad tai strategol STR3B Warren Hall. Diben y ddogfen yw pennu'r materion a gytunwyd rhwng y partïon yn ogystal ag unrhyw faterion i'w datrys.

2. Cyd-destun y Safle

2.1 Mae'r safle wedi'i leoli i'r de o gyffordd 36 ar yr A55(T). Mae'n debyg i siâp triongl ac yn ffinio â Kinnerton Lane i'r de orllewin, Lesters Lane i'r dwyrain a'r A5104 i'r gogledd orllewin. Mae'r safle yn amgylchynu safle preswyl presennol o'r enw Warren Hall Court, a cheir mynediad iddo o'r A5104. I'r gogledd ddwyrain mae Brychdyn, i'r de-ddwyrain mae Higher Kinnerton ac i'r gorllewin mae Penyffordd / Penymynydd. Mae'r safle yn cynnwys 76.3ha o dir a gyflwynwyd fel safle ymgeisiol BROU011 ar gyfer datblygiad defnydd cymysg.

3. Statws Cynllunio Cyfredol

3.1 Yng Nghynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Sir y Fflint, mae'r safle wedi'i ddynodi o fewn polisi EM2(1) fel dyraniad Safle Ansawdd Uchel ar gyfer datblygiad B1. Mae'r dyraniad yn cynnwys llecyn llai o dir o tua 36.5ha ac nid yw'n cynnwys y tir rhwng Kinnerton Lane ac Warren Dingle na'r tir sy'n ffinio â Kinnerton Lane, yr A5026 ac Warren Hall Court.

3.2 Mae hanes cynllunio'r safle'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 1990au. Gweler yr hanes cynllunio mwyaf diweddar a pherthnasol isod:

Cyfeirnod	Disgrifiad	Penderfyniad	Dyddiad
038744	Amlinelliad – Cais (gyda manylion y lleoliad a mynediad) ar gyfer parc busnes 76,394 metr sgwâr (Dosbarth B1), gwesty a chyfleusterau hamdden, ffordd, maes parcio, systemau draenio, tirlunio a gwaith ffordd oddi ar y safle gan gynnwys ffyrdd ymadael newydd o'r A55(T)	Cymeradwywyd	21/04/08

048360	Cais i amrywio amod 2 yng nghaniatâd cynllunio rhif: 038744 i ymestyn yr amser i gyflwyno materion a gadwyd yn ôl am 3 blynedd	Cymeradwywyd	19/07/11
046961	Gwaredu amodau 9 a 10 yng nghaniatâd cynllunio rhif. 038744 mewn perthynas ag adeiladu ffyrdd ymadael	Cymeradwywyd	28/01/10
046962	Amrywio amod rhif 14 o ganiatâd cynllunio rhif 038744 i nodi 'Ni fydd unrhyw waith adeiladu ac isadeiledd yn dechrau ar y safle nes bydd cynllun ar gyfer gwella a/neu ymestyn y system garthffosiaeth bresennol wedi'i gytuno â'r ymgwymerwr carthffosiaeth i fodloni Awdurdod Cynllunio Lleol. Drwy hyn, ni chaniateir i unrhyw adeiladau (na defnyddiau) gael eu meddiannu (na'u dechrau) nes bydd gwelliannau a/neu estyniadau wedi'u comisiynu i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.	Cymeradwywyd	04/02/10
047092	Cais materion a gadwyd yn ôl – manylion tirlunio strwythurol sy'n ofynnol dan amod rhif 1 yng nghaniatâd cynllunio rhif: 038744	Cymeradwywyd	06/04/10
051965	Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn cymeradwyaeth amlinellol (038744)	tynnu'n ôl	19/02/20
051973	Cais i gymeradwyo manylion a gadwyd yn ôl drwy amod rhif 28 (rheoli sŵn) a rhif 29 (asesiad llwch) sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio rhif: 038744	Cymeradwywyd	09/05/14

4. Cefndir ac Astudiaethau Technegol

4.1 Hysbysir dyraniad y safle gan nifer o astudiaethau cefndir a thechnegol a gaiff eu cynnal a'u paratoi gan hyrwyddwyr y safle, Llywodraeth Cymru.

4.2 Fel rhan o'r casgliad o ddogfennau sy'n cefnogi'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Uwchgynllun a Datganiad Cyflawni ar gyfer Warren Hall a oedd yn cynnwys Uwchgynllun dangosol ar gyfer y safle. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys crynodeb o'r astudiaethau cefndir canlynol:

- Uwchgynllun [LDP-EBD-STR3B.1](#)
- Dosbarthiad Tir Amaethyddol - Ray Leverton 2019 [LDP-EBD-STR3B.3](#)
- Asesiad Ecolegol – (TEP) 2019 [LDP-EBD-STR3B.4](#)
 - Atodiad A Asesiad Desg - TEP 2019 [LDP-EBD-STR3C.4.A](#)
 - Atodiad B Adroddiad Nodiadau Targed [LDP-EBD-STR3B.4.B](#)
 - Atodiad C – Adroddiad Technegol Asesiad o Wrychoedd ac Arolwg NVC o Goetir - TEP 2019 [LDP-EBD-STR3B.4.C](#)
 - Atodiad D – Arolwg Coedyddiaeth – [TEP LDP-EBD-STR3B.4.D](#)
 - Atodiad E - Arolygon Ystlumod - TEP 2018 [LDP-EBD-STR3B.4.E](#)
 - Atodiad F – Arolwg Madfallod Dŵr Cribog - TEP 2019 [LDP-EBD-STR3B.4.F](#)
 - Atodiad G - Arolwg Adar sy'n Nythu - TEP 2019 [LDP-EBD-STR3B.4.G](#)
 - Atodiad H – Arolwg Llygod Bengron y Dŵr a Dyfrgwn - TEP 2018 [LDP-EBD-STR3B.4.H](#)
 - Atodiad I - Arolwg Moch Daear - TEP 2018 [LDP-EBD-STR3B.4.I](#)
 - Atodiad J - Arolwg Ymlusgiaid - TEP 2018 [LDP-EBD-STR3B.4.J](#)
 - Atodiad K - Asesiad Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn - TEP 2018 [LDP-EBD-STR3B.4.K](#)
 - Atodiad K - Cynllun Cyfyngiadau Coedwigaeth [LDP-EBD-STR3B.4.L](#)
- Cyfnod 1 Asesiad Daeareg Amgylcheddol– TEP 2019 [LDP-EBD-STR3B.5.1](#)
 - Cofnodion Hanesyddol - Atkins 2019 [LDP-EBD-STR3B.5.2](#)
 - Adroddiad Gwiriad Amgylcheddol Rhan 1 – Tirnod 2019 [LDP-EBD-STR3B.5.3](#)
 - Adroddiad Gwiriad Amgylcheddol Rhan 2 – Tirnod 2019 [LDP-EBD-STR3B.5.4](#)
- Asesiad yn seiliedig ar Archeoleg a Threftadaeth WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.6](#)
- Sŵn, Ansawdd Aer, Golau ac Arogl (NALO) – WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.7](#)
- Astudiaeth Dichonoldeb Cludiant Rhan 1 – WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.8.1](#)
 - Astudiaeth Dichonoldeb Cludiant Rhan 2 – WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.8.2](#)
- Adroddiad Gwerthuso Cyfleustodau Rhagarweiniol – WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.9.1](#)
 - Adroddiad Gwerthuso Cyfleustodau Rhagarweiniol – Apiau WYG 2019 [LDP-EBD-STR3B.9.2](#)
- Llythyr Hafren Dyfrdwy: Ymholiad Datblygiad ynglŷn â'r Prif Gyflenwad [LDP-EBD-STR3B.9.3](#)
- Dŵr Cymru [LDP-EBD-STR3B.9.4](#)

4.3 Fel rhan o'r sylwadau i'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r dogfennau canlynol drwy WYG:

- Asesiad o'r Farchnad - Thomas Lister Limited – 2019 [LDP-EBD-STR3B.2](#)

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno astudiaethau pellach gan gynnwys:

- Gwerthusiad Creu Lleuedd- WYG – 2020 (gweler Atodiad 1)

5. Hyfywedd Economaidd

5.1 I wneud y mwyaf o gyfleoedd i greu twf, mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi datblygu un weledigaeth gydweithredol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth, gydag ymrwymiad rhwng partneriaid i gydweithio tuag at un pwrpas cyffredin.

5.2 Mae'r Weledigaeth Twf a gynhyrchwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn seiliedig ar dri nod allweddol (Gogledd Cymru Flaengar, Gogledd Cymru Wydn a Gogledd Cymru Gysylltiedig) gyda naw Rhaglen yn gweithredu fel "gyrwyrr allweddol" i ddarparu'r weledigaeth. Bydd y Rhaglenni'n hirdymor, yn eang o ran eu natur ac yn darparu fframwaith clir i rannu ac integreiddio adnoddau preifat a chyhoeddus i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i'r economi. Un o'r rhain yw'r Rhaglen Datblygu Tir ac Eiddo, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r prinder tir ac eiddo priodol ar gyfer twf busnes a chyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai. Cwblhawyd Bargaen Dwf Gogledd Cymru gan bob un o bartneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r DU a LIC ar 18 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn golygu fod y ddau Lywodraeth yn ymrwymo i fuddsoddi £240 miliwn i raglenni a fydd, ynghyd â chyfraniadau eraill y mae'r bwrdd yn gobeithio eu sicrhau gan bartneriaid a'r sector preifat, yn arwain at fargen sy'n werth dros £1 biliwn.

5.3 Mae Warren Hall wedi'i nodi fel un o'r chwe phrosiect blaenoriaeth cyntaf o fewn Rhaglen Tir ac Eiddo'r Fargen Dwf. Er bod tystiolaeth glir o alw gan y sector preifat, ni ellir sicrhau buddsoddiad preifat ac ni ellir parhau â'r ddi-ddordeb oni bai bod y prif isadeiledd yn cael ei ddarparu. Yn unol â hynny, mae cynllun cyllido Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn nodi cyllid o hyd at £15 miliwn i fodloni prif wasanaethau a chostau isadeiledd i'w talu ymlaen llaw ar y safle.

5.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r tir ac yn gweithio i ddarparu'r caniatâd cynllunio hanfodol ac yn galluogi i'r safle gael ei ddatblygu yn ddibynnol ar y cymeradwyaethau hanfodol.

5.5 Bydd yr Is-adran Tir newydd o fewn Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu'r rhannau preswyl ar y safle. Ffurfiwyd yr Is-adran Tir i wasanaethu amcan polisi'r Gweinidogion i ddarparu lleoedd a chartrefi cynaliadwy, fforddiadwy ac wedi'u dylunio'n dda yn ogystal â chreu buddion cymdeithasol ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi trawsnewid ei ymagwedd tuag at dir cyhoeddus drwy ddefnyddio ymagwedd mwy strategol tuag at ddefnyddio asedau cyhoeddus allweddol. Mae LIC wedi cyflwyno polisi sy'n cydnabod y gwerth hirdymor sydd ynghlwm â thir cyhoeddus sydd ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae'r farchnad fasnachol yn gallu ei gynhyrchu yn y tymor byr, ac mae'r sefydliad hwn yn arwydd clir o Lywodraeth sydd o ddifri am fwrw ymlaen â datblygu tir sector cyhoeddus i sicrhau ymateb sector cyhoeddus cydlynol i brinder tai cymdeithasol. Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad clir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol mewn perthynas â darparu tai fforddiadwy, a disgwylir y bydd y fframwaith terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2021.

5.6 Yr egwyddor hollbwysig o ran llywodraethu datblygiadau LIC yw bod LIC yn parhau i reoli'r datblygiadau hynny yn hytrach na throsglwyddo'r gwaith i ddatblygwr. Mae parhau i reoli'r datblygiad yn galluogi LIC i bennu'r gymysgedd ddeiliadaeth, gyda'r nod o sicrhau fod o leiaf hanner y cartrefi newydd yn dai fforddiadwy.

5.7 Mae LIC hefyd yn gallu pennu effeithlonrwydd ynni unrhyw dai newydd a adeiladir, a'r targed yw sicrhau fod pob datblygiad newydd yn ddi-garbon net. Mae LIC hefyd yn gallu pennu safonau gofod gofynnol ar gyfer y farchnad dai yn ogystal â thai cymdeithasol ar y safleoedd hyn. Mae'r angen i ymateb i'r heriau sydd ynghlwm â'r newid yn yr hinsawdd wrth wraidd yr ymateb newydd hwn. Bydd y cartrefi di-garbon ar ein safleoedd enghreifftiol yn profi i gymunedau bod modd adeiladu cartrefi sy'n dibynnu'n llwyr ar ynni adnewyddadwy.

5.8 Mae amcangyfrif lefel uchel o gostau ar gyfer paratoi plotiau datblygu ar rannau cyflogaeth a masnachol y safle wedi'i baratoi. Mae'r ffigurau isod yn darparu amcangyfrif cyfredol heb lwfans ar gyfer chwyddiant. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar ddarparu'r elfen dai.

Costau Datblygu:

1. Gwaith galluogi, clirio'r safle	£4,000,000
2. Ffyrdd, llwybrau, palmentydd ac arwyneb	£1,538,000
3. Tirlunio meddal a phlannu	
4. Ffensys, rheiliau a waliau	£822,000
5. Gosodiadau allanol	£161,000
6. System ddraenio allanol	£444,000
6. Gwasanaethau allanol	£961,000
8. Mân waith adeiladu ac adeiladau ategol	£27,000
9. Symiau Dros Dro	£2,537,000
10. Camau Rhagarweiniol y Prif Contractwr	£1,573,000
11. Risgiau / Cyfyngiadau Dylunio	£1,206,000
12. Chwyddiant	Heb ei gynnwys
13. Ffioedd	£905,000
14. Asesiad TAW	Heb ei gynnwys

AMCANGYFRIF O'R CYFANSWM

£14,174,000

6. Paramedrau Datblygu

6.1 Dynodwyd y safle yn rhinwedd STR3B ar gyfer datblygiad defnydd cymysg gan gynnwys yr elfennau canlynol:

- 300 o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy
- 22.7Ha o dir cyflogaeth B1 a B2 o ansawdd uchel
- Canolbwynt masnachol yn cynnwys gwesty, hamdden, canolfan leol a manwerthu
- Tirlunio strategol a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd
- Cysylltiadau trafniadaeth cynaliadwy gydag aneddiadau cyfagos a chysylltiad â rhan o lwybr Teithio Llesol yr Wyddgrug – Glannau Dyfrdwy rhwng Penymynydd a Brychdyn.

6.2 Mae'r elfen dai ar y safle o fewn Ardal Farchnad Dai'r Wyddgrug a Bwcle, fel y'i diffiniwyd yn Asesiad Marchnad Dai Leol Sir y Fflint sydd, mewn cydweithrediad â'r Astudiaeth Hyfywedd, yn gorchymyn fod angen darparu 40% o Dai fforddiadwy. Mae Papur Cefndir 7 Tai Fforddiadwy yn dynodi y bydd 120 o unedau fforddiadwy yn cael eu darparu ar y safle. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni o leiaf 50% o dai fforddiadwy ar y safle, a fydd yn arwain at 30 anedd fforddiadwy ychwanegol. O ran maint yr unedau, mae'r Asesiad o'r farchnad Dai Leol yn nodi fod 45.6% o'r angen am unedau llai o faint 1-2 ystafell wely, 28.3% ar gyfer tai anghenion cyffredinol 3 ystafell wely, 12% ar gyfer 4 ystafell wely neu ragor a 14.1% ar gyfer pobl hŷn.

6.3 Yn unol â chanfyddiadau'r LHMA, dylai'r datblygiadau gynnwys cymysgedd o dai yn ôl math a maint. Mae Tabl 5.7 yr asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Diweddariad) yn nodi'r manylion a ganlyn am anheddau ar y farchnad agored sy'n ganllaw i'r gymysgedd debygol o anheddau yn ôl math a maint o fewn y datblygiad:

Table 5.7 Open market dwelling stock and preferences			
Dwelling type/size summary	% Profile of new dwelling stock based on:		
	Current stock	Like	Expect
House 1/2 Beds	12.7	11.7	20.2
House 3 Beds	43.0	26.2	28.8
House 4 or more Beds	22.3	26.7	17.9
Bungalow	17.2	29.6	24.5
Flat	4.2	5.7	8.2
Other	0.7	0.0	0.3
Total	100.0	100.0	100.0
<i>Base</i>	53,825	8,738	7,628

Source: 2014 Household Survey

6.4 Gan fod Llywodraeth Cymru yn berchen ar safle Warren Hall, y bwriad yw sicrhau fod yr elfen breswyl o'r safle defnydd cymysg ar gael fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru i ddarparu tir i gyflymu darpariaeth tai fforddiadwy, ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gogledd Cymru i symud ymlaen â'r safle. Fel yr amlinellir isod, y targed yw gallu cynnig o leiaf hanner y cartrefi newydd fel tai fforddiadwy.

7. Llwybr y Datblygiad

7.1 Bydd datblygiad yr elfen dai ar y safle, fel y manylir ym Mhapur Cefndir 10 Cyflenwad Tir Tai, yn mynd yn ei flaen ar y gyfradd ddatblygu a ganlyn:

Blwyddyn	Cyflawniadau
2023-24	30
2024-25	45
2025-26	45
2026-27	45
2027-28	45
2028-29	45
2029-30	45

7.2 Un o'r maniffestos pwysicaf o ran ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at dir cyhoeddus yw'r ymagwedd newydd tuag at ddatblygu tai mewn llefydd a elwir yn 'safleoedd enghreifftiol'. Drwy wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio tir cyhoeddus mewn modd sy'n cydnabod ei werth cyhoeddus ehangach, mae LIC yn gosod tai cymdeithasol wrth wraidd y dull datblygu. Drwy symud at ddull sy'n mynnu datgarboneiddio cartrefi newydd, safonau gofod a datblygiadau deiliadaeth cymysg, mae LIC yn defnyddio ymagwedd integredig tuag at ddatblygu cartrefi newydd sy'n adlewyrchu ei nodau polisi ehangach yn ogystal â'r angen hollbwysig i ddarparu tai cymdeithasol ychwanegol.

7.3 Mae Is-adran Tir LIC yn canolbwyntio ar ddarparu'r dull newydd hwn ar safleoedd enghreifftiol, gan ganolbwyntio ar ddarparu buddion pwysig mewn perthynas ag Ansawdd Dylunio, Cwmpas y Safle a Maint Anheddau a Siarter Creu Lleoedd Cymru. Y bwriad yw defnyddio Warren Hall fel safle enghreifftiol.

7.4 Rhagwelir y bydd y strategaeth gynllunio i ddarparu'r safle'n cynnwys cais cynllunio amlinellol unigol o rannau masnachol, cyflogaeth a phreswyl y cais. Byddai'r cais amlinellol yn ceisio caniatâd ar gyfer yr isadeiledd galluogi llawn. Ochr yn ochr â

chynhyrchu'r cais hwn, byddai Is-adran Tir LIG yn ceisio cynnal trafodaethau â datblygwyr preswyl er mwyn bwrw ymlaen â cheisiadau materion a gadwyd yn ôl ar gyfer rhan breswyl y safle ar unwaith. Y nod cyffredinol fyddai gweithredu'r isadeiledd cyflogaeth/masnachol ochr yn ochr â datblygu rhan breswyl y safle. Byddai materion a gadwyd yn ôl dilynol ar gyfer datblygu cyflogaeth yn ymateb i alw'r farchnad.

8. Isadeiledd

Cyfleustodau

8.1 Mae Cynllun Isadeiledd y Cyngor [LDP-EBD-BP3](#) yn amlinellu elfennau o'r isadeiledd sydd eu hangen i ddarparu'r datblygiad hwn ac mae rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Gwerthuso Cyfleustodau Rhagarweiniol [LDP-EBD-STR3B. 9.1](#) a gwblhawyd gan hyrwyddwr y safle. Bydd y Fargen Dwf yn ariannu'r isadeiledd.

Priffyrdd

8.1 Mae gwaith uwchraddio eisoes wedi'i gwblhau ar Gyffordd 36 i greu cyfnewidfa aml-lefel, a oedd yn ofynnol yn y caniatâd cynllunio blaenorol. Mae'r gwaith uwchraddio hwn yn darparu mynedfa ac allanfa i'r ddwy gyfeiriad ar yr A55(T) o'r A5104. Bydd hyn yn darparu mynediad i gerbydau at y parc busnes a'r ganolfan leol / masnachol.

8.2 Bydd modd i gerbydau gael mynediad at y datblygiad preswyl o un pwynt / dau bwynt ar hyd Kinnernton Lane.

8.3 Yn unol â'r Astudiaeth Dichonoldeb Cludiant, sy'n sefydlu dichonoldeb y datblygiad arfaethedig, bydd angen gwneud rhagor o waith ar aseinio a chynhyrchu teithiau i gefnogi cais cynllunio. Mae'n rhaid i ddatblygiad y safle ystyried rôl Lesters Lane fel rhan o'r rhwydwaith priffordd lleol. Nid yw'r ffordd yn addas i ddarparu mynediad i gerbydau at y safle, un opsiwn fyddai gweithredu system unffordd neu ei nodi fel ffordd 'dim ffordd drwodd' gan gynnal mynediad at ddaliadau tir ac eiddo o bob pen. Fe ddylai hyn atal pobl rhag defnyddio Lesters Lane fel llwybr slei.

Cysylltiadau â Theithio Llesol / Cludiant Cyhoeddus

8.4 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth Teithio Llesol yn y Sir. Mae rhaglenni'r Map Rhwydwaith Integredig yn dangos llwybr BR2/2 o'r bont droed i'r dwyrain o Dobshill (Dros yr A55T) ar hyd The Old Warren i'r gyffordd â'r A5104. Mae'r atodlen hefyd yn crybwyll llwybr amgen o Chester Road Penyffordd ar hyd yr A5104 i gyfnewidfa Warren Hall. Ar hyn o bryd, mae'r cyngor yn datblygu'r ddau gynllun fel rhan o'i fentrau Teithio Llesol a'r Rhwydwaith Seiclo Craidd. Dylai cynllun a dyluniad y

datblygiad arfaethedig yn Warren Hall ddarparu cysylltiadau diogel a hwylus o'r safle i'r llwybr(au) Teithio Llesol gan gysylltu â Phenyffordd / Penymynydd a Brychdyn.

8.5 Dylai'r datblygiad arfaethedig hefyd sicrhau bod cysylltiadau cerdded a beicio ar gael ar draws y safle a'u bod yn darparu cysylltiadau â Higher Kinnerton er mwyn galluogi trigolion i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Fel sydd wedi'i nodi yn yr Uwchgynllun, mae bwriad i greu cysylltiadau i gerddwyr/beicwyr yn ne'r safle ar Kinnerton Lane a Lesters Lane, a fydd yn y pen draw yn creu cysylltiad i gerddwyr/beicwyr drwy'r Safle Strategol, gan gynnwys yr elfennau cyflogaeth/masnachol ac i'r A5104 i'r gogledd.

8.6 Nid oes cyfleusterau cerdded / beicio dynodedig ar Kinnerton Lane a Lesters Lane ar yn o bryd. Fel rhan o gynllun preswyl Elan Homes (caniatâd cynllunio rhif 054770) sydd wedi'i leoli i'r de o Kinnerton Lane (oddeutu 500m i'r dwyrain o gyrion deheuol safle Warren Hall), roedd angen creu llwybrau troed newydd fel a ganlyn ac mae'r gwaith hwn naill ai wedi'i gwblhau neu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd:

- Darparu llwybr troed ar hyd ffin ogleddol y safle o'r pwynt lle mae Llwybr Troed rhif 5 yn ymuno â Kinnerton Lane ac i'r Brif Ffordd
- Darparu llwybr troed ar hyd ffin orllewinol y safle o'r pwynt lle mae Llwybr Troed rhif 5 yn ymuno â Kinnerton Lane i'r gornel de orllewinol
- Gwelliannau i Llwybr Troed rhif 5 o'r pwynt lle mae'n ymuno â'r safle yng nghornel de orllewinol Park Avenue.

8.7 Mae'n bosibl y bydd modd creu llwybr troed/beicio dynodedig newydd i lenwi'r 'bwllch' sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran mynediad i gerddwyr/beicwyr (yn ymestyn i oddeutu 500m) o leoliad y pwynt mynediad arfaethedig i gerddwyr/beicwyr i safle Warren Hall ar hyd Kinnerton Lane i gyfeiriad y dwyrain, gan gysylltu gyda'r llwybr troed newydd a grëwyd fel rhan o gynllun Elan Homes (h.y gan gysylltu ar y pwynt lle mae Llwybr Troed rhif 5 yn ymuno â Kinnerton Lane a chynnwys cyfleusterau croesi i gerddwyr lle bo angen). Byddai hyn yn creu llwybr dynodedig i gerddwyr o'r Safle Strategol i setliad Higher Kinnerton, ac yn caniatáu i gerddwyr gael mynediad at y gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol ar hyd Kinnerton Lane / y Brif Ffordd neu ar hyd Kinnerton Lane / Llwybr Rhif 5 / Park Avenue. Bydd yn rhaid ystyried gwelliannau i gysylltiadau beicio rhwng y safle a Higher Kinnerton ymhellach yn y broses o lunio cynigion datblygu mwy manwl.

8.8 Yn ystod y broses o lunio cynigion datblygu manwl, bydd yn rhaid asesu capasiti'r gwasanaethau bus presennol a'r galw tebygol am wasanaethau newydd neu well. Ar hyn o bryd, mae rhif gwasanaeth LT8 Caergwrle / Yr Hôb / Penyffordd / Higher Kinnerton / Brychdyn yn mynd ar hyd Kinnerton Lane a heibio'r safle, mae hefyd yn cynnig cysylltiad at wasanaeth Arriva 3 rhwng Brychdyn a Chaer. Dylai'r datblygiad arfaethedig ddarparu gorsafoedd bus a llwybrau newydd mewn llefydd priodol o fewn y datblygiad neu sicrhau fod cynllun a dyluniad y datblygiad arfaethedig yn darparu cysylltiadau diogel a chyfleus at orsafoedd bus ar hyd Kinnerton Lane a'r A5104.

Addysg

8.9 Mae'r Cynllun Isadeiledd (Papur Cefndir LDP03) yn cynnig sylwadau mewn perthynas ag Addysg. Nid yw'r Awdurdod Addysg Lleol wedi gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig yn ffurfiol ac mae'r CDLI yn parhau â'r ymagwedd a fabwysiadwyd yn y CDU a'r SPG23 Cyfraniadau Datblygwyr at Addysg cyfredol i geisio cyfraniadau ariannol lle mae datblygiad newydd yn rhoi pwysau ar gapasiti ysgolion presennol. Gan ddefnyddio'r fethodoleg hon, mae'r Awdurdod Addysg Lleol ar hyn o bryd yn ceisio cyfraniad ariannol o £845,733 tuag at Ysgol Sefydledig Derwen, Higher Kinnerton a £960,388 tuag at Ysgol Uwchradd Penarlâg. Fodd bynnag, bydd angen adolygu hyn yn sgil y wybodaeth ddiweddaraf ar adeg y cais cynllunio.

Man Cyhoeddus / Isadeiledd Gwyrdd

8.10 Bydd y datblygiad yn darparu fframwaith isadeiledd gwyrdd o ansawdd uchel ar gyfer y safle, fel sydd wedi'i nodi yn yr uwchgynllun enghreifftiol. Bydd yr elfen breswyl yn cynnwys:

- Maes chwarae a hamdden 16,000 metr sgwâr gan gynnwys
 - Ardal chwarae cymdogaeth gydag offer
 - Arwyddion / seddi / byrddau picnic / biniau sbwriel / rheseli beiciau
 - Llecyn Gemau Amldeffnydd (MUGA) 30m x 16m
- Tirlunio strwythurol
- Creu llwybrau i gerddwyr a beicwyr drwy'r safle fel rhan o rwydwaith isadeiledd gwyrdd (gweler yr adran Teithio Llesol)

8.10 Mae'n bosibl y bydd modd, yn ddibynnol ar raddau'r lliniariad ecolegol, creu cae chwaraeon i'w ddefnyddio gan breswylwyr y datblygiad yn ogystal ag ardaloedd cyfagos ar y darnau mawr o dir heb eu datblygu yng nghornel gogledd orllewinol y safle.

9. Materion Eraill

Creu lleoedd

9.1 Rhaid i'r datblygiad goleddu'r egwyddorion Creu Lleoedd sydd wedi eu hymgorffori o fewn PPW10 er mwyn darparu amgylchedd byw cynaliadwy o ansawdd uchel.

9.2 Mae asesiad manwl wedi'i gwblhau o fanylion cynaliadwyedd dyraniad Safle Strategol Warren Hall mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018) a chyflwynir yr asesiad hwn ar ffurf Gwerthusiad creu lleoedd. Mae'r dyraniad yn gallu cyflawni'r mwyafrif o ganlyniadau creu

lleoedd Polisi Cynllunio Cymru (mae paragraff 2.20 Polisi Cynllunio Cymru 10 yn egluro “na fydd modd i bob cynnig polisi neu ddatblygiad brofi eu bod yn gallu bodloni pob un o’r canlyniadau hyn” ac felly’n gallu darparu datblygiad cynaliadwy iawn. Mae crynodeb o’r canlyniadau creu lleoedd allweddol yn ogystal â’r asesiad lawn wedi’u hamlinellu yn Atodiad 1.

Cynllun Dangosol

9.3 Darperir cynllun dangosol fel rhan o’r Uwchgynllun ar gyfer y safle ac mae’r cynllun hwn yn nodi’r lleoliad bras a’r trefniadau arfaethedig o ran defnydd o’r tir, yn ogystal â phwyntiau mynediad a rhwydwaith isadeiledd gwyrdd strategol. Bydd y broses o lunio cynigion datblygu manwl ar y cam cais cynllunio yn seiliedig ar y cynllun hwn.

Sŵn

9.4 Yn unol â’r Adroddiad NALO, bydd yn rhaid cynnal asesiad sŵn ar y safle mewn perthynas â derbynyddion sensitif presennol ac i nodi mesurau osgoi a lliniaru o ran y ffynonellau sŵn posibl canlynol:

- Sŵn traffig ar yr A55 yng ngogledd ddwyrain y safle;
- Sŵn traffig ar yr A5104 yng ngogledd y safle;
- Maes Awyr Penarlâg yng ngogledd orllewin y safle; a
- Sŵn gweithredol o Glwb Autograss Gogledd Cymru yn nwyrain y safle.

Systemau Draenio Cynaliadwy

9.5 Bydd yn rhaid defnyddio dull sy’n seiliedig ar Gynllun Draenio Cynaliadwy mewn perthynas â draenio dŵr wyneb ar y safle yn unol â Deddf Rheoli Dŵr Llifogydd 2010. Mae modd darparu’r lefel o ddatblygiad a gynigir fel rhan o ddyraniad y Safle Strategol fel rhan o gynllun sy’n cydymffurfio â Systemau Draenio Cynaliadwy. Nodweddir y safle yn bennaf gan gaeau pori maint canolig / mawr a choedwigoedd, gan gynnwys y goedwig a’r cwrs dŵr a elwir yn Warren Dingle yn ne’r safle. O arwynebedd cyfan y safle, sef 75.49 hectar, mae’r cynnig yn bwriadu datblygu / adeiladu ar oddeutu 32 hectar. Ni fydd hanner y safle yn cael ei ddatblygu felly. Bydd darn sylweddol o dir ar y safle yn aros yr un fath felly, gan ganiatáu i ardaloedd priodol gael eu defnyddio ar gyfer mesurau Systemau Draenio Cynaliadwy yn ôl yr angen. Mae modd darparu cynllun sy’n cydymffurfio â Systemau Draenio Cynaliadwy ac ni fydd y gofyniad i weithredu mesurau Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael effaith sylweddol ar yr ardal i’w datblygu. Fe ddylai’r cynllun gael ei lunio o’r dechrau fel rhan hanfodol o’r dyluniad cyffredinol yn unol â’r Safonau Systemau Draenio Cynaliadwy Statudol gyda’r gallu i

gael ei fabwysiadu gan y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, sef Cyngor Sir y Fflint.

Ecoleg

9.6 Cefnogir y safle gan ystod eang a manwl o arolygon ecolegol. Mae'r rhain yn nodi'r nodweddion ecolegol, cynefinoedd a rhywogaethau allweddol ar y safle sef y gwrychoedd, coed aeddfed, coedwigoedd, llecynnau o laswellt wedi'u lled-wella a glaswellt corslyd sydd ynghlwm ag ystod o rywogaethau yn y goedwig. Fe ddylai datblygiad y safle weithredu gwelliannau bioamrywiaeth ac argymhellion y Gwerthusiad Ecolegol ar y cyd â'r Uwchgynllun drafft. Bydd angen gwaith asesu ecolegol pellach wrth lunio cynlluniau a dyluniadau datblygu manwl, yn arbennig mewn perthynas ag adar sy'n nythu, a hebog yr ehedydd.

9.7 Yn ogystal â'r Gwerthusiad Ecolegol presennol, bydd angen Asesiad Effaith Ecolegol i hysbysu'r dull uwchgynllun ar gyfer y safle ar y cam cyflwyno'r cais cynllunio wedi'i ategu gyda mesurau osgoi a lliniaru priodol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd. At ei gilydd, dylai'r datblygiad arfaethedig wella bioamrywiaeth ar y safle.

9.8 Bydd yn rhaid byffro cynefinoedd a gynhelir yn briodol gan sicrhau nad ydynt yn cael eu gwasgu (yn arbennig y gwrychoedd) rhwng tir datblygu a'r llwybrau troed / beiciau yn arbennig os oes angen golau er mwyn caniatáu i'r cynefinoedd barhau i ddarparu cysylltedd bywyd gwyllt.

Coed a Gwrychoedd

9.9 Bydd angen cadw a diogelu coed aeddfed ar y safle. Dylid hefyd cynnal gwrychoedd, ond lle bo angen eu tynnu i lawr, dylid eu hailblannu gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol. Mae cyngor pellach wedi ei gynnwys yn yr SPG4 Coed a Datblygiad a fabwysiadwyd.

9.10 Dyffryn coediog yw Warren Dingle, ac mae'n rhedeg drwy'r safle a ddynodir fel Coetir Hynafol dan y teitl 'Planhigfeydd ar Safleoedd Coetiroedd Hynafol'. Mae Gravelhole Wood wedi'i ddynodi fel Safle Coetir Hynafol wedi'i Adfer. Fel y nodir yn yr Uwchgynllun, bydd y nodweddion hyn yn cael eu diogelu rhag datblygiad. Bydd yn rhaid plannu byffer rhwng coetir o'r fath a'r adeiladau ac fe allai hyn helpu i greu coridorau tywyll drwy'r safle. Mae cyfleoedd gwych ar gyfer gwella bioamrywiaeth i'r cynefinoedd hyn drwy ei reoli'n briodol.

Treftadaeth Adeiledig

9.11 Yn unol â chanfyddiadau'r Asesiad Desg yn seiliedig ar Archaeoleg a Threftadaeth, bydd y broses o lunio cynigion datblygu manwl yn ystyried lleihau'r effaith ar asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi'u dynodi. O

ran Treftadaeth Adeiledig, mae niwed nad yw'n sylweddol wedi'i nodi mewn perthynas â'r asedau hanesyddol yn ardal y safle, a'r ased treftadol posibl nad yw wedi'i ddynodi, sef Gardd Warren Hall, sydd wedi'i leoli ar y safle. Gan nad yw'r lefelau niwed a nodwyd yn sylweddol a'i fod, ar y cyfan, yn isel iawn ar y raddfa niwed, bydd angen cydbwysu'r niwed yn erbyn y buddion sydd ynghlwm â'r cynigion datblygu i'r cyhoedd.

Parcio

9.12 Bydd darpariaeth barcio yn cael ei chynnwys yn y datblygiad yn unol â'r safonau parcio cyfredol yn SPG11 Safonau Parcio.

Gofod o Amgylch Anheddau

